

Cyfarfod Misol / Monthly Meeting

Nos Lun 15ed Gorffennaf, 2024 / Monday, 15th July, 2024

Festri Tabernacle Fetry, Pencader

8.00 yh / pm

Presennol / Present: M. Griffiths, H. Lewis, A. James, S. Mason, D. Griffiths, D. Davies, Anita Evans (Clerc/Clerk);
Cynghorydd Sir / County Councillor L. Evans.

Ymddiheuriadau / Apologies: A. Davies, W. Cole, V. Davies, R. Thomas, J. Jones. **Absennol / Absent:** G. Jones.

<p>1. Croeso: Cadeiriwyd y cyfarfod gan M. Griffiths. Croesawodd bawb a nodwyd ymddiheuriadau.</p>	<p>1. Welcome: Meeting chaired by M. Griffiths, who welcomed everyone; apologies and absences noted.</p>
<p>2. Datgan diddordeb: Gwnaeth tri aelod ddatgan diddordeb - D. Davies, A. James, Cynghorydd Sir L. Evans - gweler eitem rhif 7.</p>	<p>2. Declaration of interest: Three members declared an interest: D. Davies, A. James, County Councillor L. Evans – see item no. 7.</p>
<p>3. Adroddiad yr Heddlu – Nid oedd SCCH Anwen Davies (Swyddog Cefnogi Cymunedol yr Heddlu) yn bresennol. Roedd y data misol eisoes wedi ei e-bostio i'r Cyngor.</p>	<p>3. Report from Police - PCSO Anwen Davies was not present. The monthly data had previously been e-mailed to the Council.</p>
<p>4. (i) Cofnodion Mis Mehefin (17.06.2024) - derbyniwyd fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan S. Mason, eiliwyd gan A. James. (ii) Cofnodion Is-Bwyllgor Cyllid (10.07.2024) - derbyniwyd fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan H. Lewis, eiliwyd gan D. Davies.</p>	<p>4. (i) Minutes of June Meeting (17.06.2024) – accepted as correct record. Proposed by S. Mason, seconded by A. James. (ii) Minutes of Finance Sub-Committee (10.07.2024) - accepted as correct record. Proposed by H. Lewis, seconded by D. Davies.</p>
<p>5. Materion yn Codi: (i) <u>Cyngor Sir Gâr</u> – Adran Priffyrdd - dim ymateb. (ii) <u>Cyfleusterau Cyhoeddus</u> - derbyniwyd llythyr oddi wrth C. Evans yn ymateb i lythyr anfonwyd gan y Clerc 17.04.2024 ynglyn â thoiledau Pencader ac Alltwalis. Mae swyddog newydd yn cymeryd gofal o'r gwaith erbyn hyn, ac mae trefniadau mewn llaw iddi ddod Bencader i gyfarfod â'r Clerc a Chynghorwyr ar 05.08.2024. (iii) <u>Mynwent y Plwyf, Pencader</u> - nodwyd bod y gwaith atgyweirio ar doiledau Mynwent y Plwyf wedi dechrau. Bydd y Clerc yn gwirio'r gwaith a gofynnwyd hefyd i aelodau'r Is-Bwyllgor Safleoedd wneud yr un peth. (iv) <u>Ffioedd Mynwentydd</u> – yn dilyn trafodaeth, cytunwyd ar y ffioedd canlynol: Claddu: £225.00, claddu llwch: £175.00; carreg fedd newydd: £125.00; ail-lythrennu: £100.00. Cynigiwyd gan D. Davies, eiliwyd gan D. Griffiths.</p>	<p>5. Matters Arising: (i) <u>Carmarthenshire County Council</u> – Highways Department - no response. (ii) <u>Public Conveniences</u> – a reply has been received from C. Evans in response to our letter of 17.04.2024. The work in question has now been passed to another officer, and a meeting with the Clerk and Councillors has been arranged to take place at Pencader on 05.08.2024. (iii) <u>Parish Cemetery, Pencader</u> - it was noted that refurbishment work at the toilets in the Parish Cemetery has commenced. The Clerk will check on progress and members of the Premises Sub-Committee were also asked to do likewise. (iv) <u>Revision of Burial Fees</u> – following discussion, it was agreed to revise the fees as follows: Burial: £225.00; burial of ashes: £175.00; new headstone: £125.00; re-lettering: £100.00. Proposed by D. Davies, seconded by D. Griffiths.</p>

<p>(v) <u>Cornel Chwarae</u>: Swydd Gofalwr – cytunwyd bod H. Jones i’w gyflogi am chwech awr yr wythnos i ofalu am y Cornel Chwarae. Cynigiwyd gan D. Griffiths, eiliwyd gan D. Davies.</p> <p>(vi) <u>Diffibrilwyr</u> - Mae A. Munday wedi gosod arwyddion i ddangos lleoliad y diffibrilwyr yn y Plwyf. Gofynnodd y Cynghorwyr bod arwyddion hefyd yn cael eu gosod yn Windy Corner a’r gysgodfan bws yn Alltwalis. Bydd y Clerc hefyd yn gosod gwybodaeth ynglyn â lleoliad diffibrilwyr ym myrddau arddangos y Plwyf ac ar safle we’r Cyngor. Nodwyd bod un diffibrilydd yn dal ar gael i’w osod a bod angen penderfynu ar leoliad.</p> <p>(vii) <u>Glanhau Cysgodfeydd Bysus</u> – mae gwybodaeth wedi ei dderbyn oddi wrth gwmni Core Clean Services; cytunwyd i gysylltu ag ail gwmni, sef Danfflo, yn ogystal. Cynigiwyd gan H. Lewis, eiliwyd gan D. Davies. Cytunodd y Cynghorydd Sir L. Evans hefyd i wneud ymholiadau gyda’r Cyngor Sir ynglyn â pha gwmni maent hwy yn ei ddefnyddio.</p> <p>(viii) <u>Hysbysfyrddau</u> – Nodwyd gan y Clerc ei bod wedi siarad â Mr. D. Thomas ynglyn ag atgyweirio’r hysbysfyrddau ym Mhontweli a New Inn. Mae’r angen coes newydd ar y bwrdd yn New Inn a chytunwyd i ofyn i Mr. K. Lewis wneud y gwaith penodol hwn.</p>	<p>(v) <u>Play Area</u>: Post of Caretaker – it was agreed to employ H. Jones for six hours per week as caretaker of the Play Area. Proposed by D. Griffiths, seconded by D. Davies.</p> <p>(vi) <u>Defibrillators</u> - A. Munday has placed signs showing the location of the defibrillators in the Parish. Councillors requested that signage also be placed at Windy Corner and the bus stop at Alltwalis. The Clerk will also place notices on the Parish noticeboards and on the Council’s website regarding the location of defibrillators. It was noted that a decision for the location of one further defibrillator remains to be made.</p> <p>(vii) <u>Cleaning of Bus Shelters</u> – information has been received from Core Clean Services; it was agreed to contact a further company, Danfflo, for information. H. Lewis proposed and D. Davies seconded. County Councillor L. Evans also agreed to enquire which company was currently being used by the County Council.</p> <p>(viii) <u>Noticeboards</u> – the Clerk reported that Mr D. Thomas had been asked to repair the noticeboards at Pontweli and New Inn. The noticeboard at New Inn also requires a new support. It was agreed to ask Mr. K. Lewis to undertake this particular task.</p>
<p>6. Ariannol: Derbyniwyd a chymeradwywyd y Fantolen Ariannol hyd at 30.06.2024. Cynigiwyd gan D. Davies, eiliwyd gan A. James. Diolchwyd i H. Lewis am baratoi’r fantolen a nodwyd hefyd werthfawrogiad y Cyngor am fanylder yr adroddiad. <u>Biliau i’w Talu</u> – Cyflogau: £1,977.26; Costau’r Clerc: postio/ffôn 08.06.2024 – 10.07.2024 = £12.80; Bridge the Gap: £50.00; Parch B. Timothy: £25.00; “Meeting Owl 3” (system cyfarfodydd hybrid): £1,046.32; strimmer: £444.00; cabinet i’r diffibrilydd ychwanegol: £395.00. Cytunwyd i dalu’r uchod: cynigiwyd gan D. Davies, eiliwyd gan D. Griffiths.</p>	<p>6. Financial: The Financial Statement up to 30.06.2024 was received and approved. Proposed by D. Davies, seconded by A. James. H. Lewis was thanked for preparing the statement and the Council’s appreciation of the detail presented was also noted. <u>Bills to Pay</u> - Wages: £1,977.26; Clerc costs: postages / telephone 08.06.2024 – 10.07.2024 = £12.80; Bridge the Gap: £50.00; Rev. B. Timothy: £25.00; “Meeting Owl 3” (hybrid meeting system): £1,046.32; new strimmer: £444.00; cabinet for additional defibrillator: £395.00. It was agreed to pay the above: proposed by D. Davies, seconded by D. Griffiths.</p>
<p>7. Cynllunio: Ysgol Cae’r Felin - gwybodaeth wedi e-bostio i aelodau yr Is-Bwyllgor Cynllunio - dim gwrthwynebiad. (Gweler eitem rhif 2 uchod).</p>	<p>7. Planning: Ysgol Cae’r Felin- information previously e-mailed to members of Planning Sub-Committee. No objections. (See Item No. 2 above).</p>

<p>8. Y Gofgolofn: Gofynnodd y Clerc ynglyn â glanhau'r Gofgolofn eleni. Cytunwyd bod y Clerc yn cysylltu â'r cwmni yn Cross Hands sydd yn arfer cyflawni'r gwaith a gofyn i hynny gael ei wneud mewn da bryd cyn Sul y Cofio. Cytunwyd hefyd i'r gwaith hwn gael ei gyflawni'n flynyddol o hyn ymlaen. Cynigiwyd gan D. Davies eiliwyd gan S. Mason.</p>	<p>8. The War Memorial: The Clerk asked if the War Memorial should be cleaned this year. It was agreed for the Clerk to contact the company at Cross Hands which usually undertakes the work, to ensure it is completed in good time prior to Remembrance Sunday. It was also agreed that this work should be undertaken annually. Proposed by D. Davies, seconded by S. Mason.</p>
<p>9. Audit 2023-2024: Anfonwyd y Ffurflen Flynyddol ar gyfer 2023-2024, ynghyd â'r ddogfennaeth y gofynnwyd amdano, i Archwilio Cymru ar y 03.07.2024 yn ddigidol. Derbyniwyd e-bost yn cadarnhau derbyn yr holl ddogfennaeth.</p>	<p>9. Audit 2023-2024: The Annual Return for 2023-2024, together with requested documentation, was sent digitally to Audit Wales on 03.07.2024. An e-mail has been received confirming receipt from Audit Wales.</p>
<p>10. Dogfennaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> i) <u>Adroddiad Blynyddol 2023-2024</u> – wedi ei gwblhau gan M. Griffiths, ei rannu drwy e-bost yn flaenorol a'i drafod yn y cyfarfod. ii) <u>Polisi Cymorth Ariannol</u> - wedi ei adolygu gan M. Griffiths, ei rannu drwy e-bost yn flaenorol a'i drafod yn y cyfarfod. iii) <u>Cofrestr Asedau</u> – cyflwynwyd a thrafodwyd y Cofrestr Asedau a oedd wedi ei ddiweddarau gan H. Lewis. iv) <u>Cynllun Bioamrywiaeth</u> - ar waith. Bydd y Cadeirydd yn mynychu sesiynau hyfforddiant newydd yn y maes hwn a gynigir gan Un Llais Cymru ar 25.07.2024 a 29.07.2024. Bwriedir cyflwyno cynllun newydd erbyn Mis Medi. <p>Diolchwyd i M. Griffiths a H. Lewis am baratoi a chyflwyno'r ddogfennaeth uchod.</p> <p>Derbyniwyd gan y Cyngor – cynigiwyd gan D. Davies, eiliwyd gan D. Griffiths a S. Mason.</p>	<p>10. Documentation:</p> <ul style="list-style-type: none"> i) <u>Annual Report 2023-2024</u> – completed by M. Griffiths, previously circulated via e-mail and discussed at the meeting. ii) <u>Policy for Financial Support</u> – reviewed by M. Griffiths, previously circulated via e-mail and discussed at the meeting. iii) <u>Register of Assets</u> - the updated Asset Register was presented by H. Lewis and discussed at the meeting. iv) <u>Biodiversity Plan</u> - on-going. The Chairman will attend two recently approved training sessions offered by One Voice Wales in this respect on 25.07.2024 and 29.07.2024. It is proposed a new plan will be presented by September. <p>M. Griffiths, and H. Lewis were thanked for their work in preparing and presenting the above documents.</p> <p>Documentation accepted by Council – proposed by D. Davies, seconded by D. Griffiths and S. Mason.</p>
<p>11. Gohebiaeth: mae'r canlynol wedi eu e-bostio i'r Cynghorwyr:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) <u>Cyngor Sir Gâr</u> - cau ffyrdd; Tîm Mynediad i Gefn Gwlad; EED Cynllunio; Holiadur ynglyn ag Hyfforddiant Côt Ymddygiad; Alex Morgan - Hawlio Tramwy; Arolwg bod yn Gynghorydd; Arolwg Rhandiroedd. (ii) <u>Un Llais Cymru</u> – gwybodaeth ynglyn ag hyfforddiant; adnoddau Bioamrywiaeth - recordiad gweminar ar gael. 	<p>11. Correspondence: the following have been e-mailed to Councillors:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) <u>Carmarthenshire County Council</u> – road closures; Countryside Access Team; EED Planning; questionnaire re: Code of Conduct training, Alex Morgan - Rights of Way; Questionnaire on being a Councillor; Allotment Survey. (ii) <u>One Voice Wales</u> – information re: training; Biodiversity resources - webinar available.

<p>(iii) <u>Green Gen</u> – gwybodaeth a dolen-gyswilt i'r adborth yn dilyn yr ymgynghoriad.</p> <p>(iv) <u>Antur Teifi</u> – llythyr yn gofyn os ydy'r Cyngor yn dymuno parhau i dderbyn gwasanaeth A. Munday i gynnal a chadw'r diffibrilyddion yn y Plwyf. Gofynnwyd i'r Clerc i ymateb ac i gadarnhau.</p> <p>(v) <u>Archwilydd Mewnol (Eryl Jones)</u> – yn dilyn derbyn y llythyr Ymrwymiad, roedd un mater lle roedd angen eglurhad. Cytunodd H. Lewis i gysylltu â'r Archwilydd ynglyn â'r mater cyn cyfarfod nesaf y Cyngor ym Mis Medi.</p>	<p>(iii) <u>Green Gen</u> – information and link to feedback following consultation.</p> <p>(iv) <u>Antur Teifi</u> - letter to enquire whether the Council wishes to retain the services of A. Munday to maintain the defibrillators within the Parish. The Clerk was requested to reply to confirm.</p> <p>(v) <u>Internal Auditor (Eryl Jones)</u> – the Letter of Engagement had been received. The Councillors raised one query which required clarification. H. Lewis agreed to seek clarification by the next meeting in September.</p>
<p>12) Unrhyw Fater Arall (gwybodaeth oddi wrth Gynghorwyr/Clerc yn unig):</p> <p>H. Lewis – mae H. Jones (Gofalwr) yn dymuno nodi ei werthfawrogiad am y strimmer newydd sydd yn gwneud y gwaith o gynnal a chadw'r Mynwentydd yn haws; digwyddiad annymunol wedi digwydd eto yn ardal y fan fwyd ar dir y Pafiliwn - mae'r PCSO eisoes wedi ei hysbysu ynglyn â hyn.</p> <p>A. James – rhai llythrennau ar goll ar yr arwyddion ar Sgwâr Llanfihangel-ar-arth.</p> <p>D. Davies – mae'r arwydd "Ildio" ar groesffordd Penlan ar y llawr.</p> <p>M. Griffiths – angen glanhau'r arwydd "Alltwalis" ar rhiw Alltwalis yn gyfangwbl; annibendod a sbwriel yn yr arhosfan ger Penlan.</p> <p>Cynghorydd Sir L. Evans - Cyngor Sir yn mynd i dorri coed yn fuan; mynd i wneud ymholiadau ynglyn â phroblem "Himalayan Balsam" yn yr ardal; llinellau melyn ar bwys Wikes' Head, Pontweli – gan fod cymaint o amser wedi mynd heibio, rhaid trefnu ymgynghoriad newydd; darparwyd diweddariad i'r cynlluniau ynglyn â rheoliadau newydd 20 millitr yr awr.</p>	<p>12) Any Other Business (information from Councillors and Clerc only):</p> <p>H. Lewis - H. Jones (Caretaker) wished to note his appreciation of the Council's purchase a strimmer to facilitate work in our Cemeteries; a further unfavourable incident again near the food van which visits the Pavilion grounds - the PCSO has already been advised of this incident.</p> <p>A. James – some letters missing on road signs at Llanfihangel-ar-arth Square.</p> <p>D. Davies - the "Give Way" sign on Penlan junction is on the ground.</p> <p>M. Griffiths - road sign "Alltwalis" on Alltwalis hill needs to be cleaned completely; rubble and possible fly-tipping in lay-by at Penlan junction.</p> <p>County Councillor L. Evans - County Council will be carrying out tree cutting soon; will make enquiries re: problem of Himalayan Balsam in the area; yellow lines at Wilkes' Head, Pontwelly – due to time lapse, it is now necessary to arrange a second consultation; provided update re: proposed regulations regarding 20mph speed limit.</p>

Gorffennwyd y Cyfarfod 9.25 y.h. / Meeting ended 9.25 p.m.

